**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

—

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Julie Morgan AS
Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Lynne Neagle AS
Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

13 Hydref 2021

Annwyl Weinidogion


Cwestiynau dilynol ar ôl sesiwn graffu gyffredinol ar 23 Medi 2021

Diolch am ddod i'n cyfarfod ddydd Iau 23 Medi ac ymateb i'n cwestiynau.

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch gyda chwestiynau dilynol ar y materion a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn ymateb erbyn dydd Gwener 5 Tachwedd.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn graffu gyffredinol ar 23 Medi 2021

Yn dilyn y sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar 23 Medi 2021, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon eich ymateb erbyn dydd Gwener 5 Tachwedd.

### Cynlluniau paratoi ar gyfer y gaeaf

1. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, rhoddodd Dr Andrew Goodall wybod i ni, er bod gan bob bwrdd iechyd lleol gynlluniau paratoi ar gyfer y gaeaf, roedd Llywodraeth Cymru yn gorfod herio rhai o'r cynlluniau hynny. Cadarnhaodd y Prif Weinidog mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 8 Hydref y bydd cynllun y gaeaf Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn. A allech gadarnhau pryd y bydd gan bob bwrdd iechyd lleol gynlluniau cadarn ar gyfer y gaeaf ar waith, sut y byddwch yn sicrhau bod dull cydgysylltiedig digonol o ran cynllunio ar gyfer y gaeaf ledled Cymru, a pha sicrwydd pellach y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu bod y system iechyd a gofal yng Nghymru yn barod ar gyfer y gaeaf sydd i ddod.

### Cynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol a chostau ynni

2. Sut mae'r cynnydd arfaethedig mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a chostau ynni cynyddol yn cael eu hystyried yn y gwaith cynllunio ariannol gan Lywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru? A ydych yn rhagweld unrhyw effaith ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer darparu gwasanaeth?

### Cyfrifoldebau'r Gweinidogion

3. Rydym yn ddiolchgar am y wybodaeth a gafwyd gennych yn y sesiwn dystiolaeth ar y rhaniad cyfrifoldebau lefel uchel rhyngoch chi a'ch Dirprwy Weinidogion, a'r cadarnhad y byddwch yn cydweithio'n agos lle mae eich cyfrifoldebau'n gorgyffwrdd. Fodd bynnag, nodwn nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei hadlewyrchu yn y wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru, sy'n rhestru'r un cyfrifoldebau portffolio ar gyfer pob un ohonoch. Felly byddem yn gwerthfawrogi eglurhad pellach gennych ar y pwynt hwn.

### Iechyd y cyhoedd a gweithgarwch ataliol

4. Mewn ymateb i gwestiwn gan Mike Hedges ynghylch gofal brys a gofal mewn argyfwng, gwnaethoch ddweud y byddech yn gwneud llawer mwy o ymdrech ym maes iechyd y cyhoedd yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. A allwch roi rhagor o fanylion am y ffocws y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi ar iechyd y cyhoedd ac atal, a sut y dangosir hyn yn y gyllideb ddrafft sydd ar ddod.

## Rhyddhau o'r ysbyty

5. Mewn ymateb i'm cwestiwn ar gapasiti, gwnaethoch ddweud bod 1,000 o bobl mewn gwelyau ysbyty ar hyn o bryd sy'n barod i'w rhyddhau, ac nad oes capasiti yn y system ofal i ymdopi â hwy. A allwch roi manylion am unrhyw gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r broses o ryddhau o'r ysbyty mewn modd amserol a phriodol.

## Materion eraill

At hynny, yn ystod y cyfarfod, cytunodd y Dirprwy Weinidogion a'r uwch-swyddogion i ddarparu rhagor o wybodaeth am y pwyntiau a ganlyn:

6. Sut y mae anghenion gofal cymdeithasol pobl sydd wedi neu sydd wrthi'n gwella ar ôl COVID hir yn cael eu hystyried, eu hasesu a'u diwallu gan fyrddau iechyd lleol a byrddau partneriaeth rhanbarthol.
7. Data ar gyfran yr ymgynghoriadau meddygon teulu a gynhelir wyneb yn wyneb ac o bell, gan gynnwys unrhyw amrywiant rhwng byrddau iechyd a rhwng meddygfeydd ledled Cymru.
8. Manylion am nifer y plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol, a'r amseroedd aros ar gyfer asesiadau ac ymyriadau therapiwtig.
9. Cadarnhad p'un a yw unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru yn gwario llai na'i asesiad gwariant safonol ar ofal cymdeithasol ar hyn o bryd.